**Pwyllgor Busnes** **BC169-00Terfynol**

COFNODION Y CYFARFOD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mawrth 13 Mehefin 2000 |
| **Amser:** | 10.45am |
| **Lleoliad:** | Ystafell y Dirprwy Lywydd (A3.10) |

**Yn bresennol**

Dirprwy Lywydd, Cadeirydd
Y Trefnydd
Ieuan Wyn Jones, Trefnydd Busnes Plaid Cymru
William Graham, Trefnydd Busnes y Blaid Geidwadol
Jenny Randerson, Trefnydd Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
John Lloyd, Clerc y Cynulliad
Barbara Wilson, Dirprwy Glerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Sherry Rees, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Kathryn McDonald, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Craig Stephenson.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol (BC 164-00)

2.1 Atgoffodd y Dirprwy Lywydd y Trefnwyr Busnes mai cofnodion 6 Mehefin fyddai'r cyntaf i'w cyhoeddi. Nodwyd rhai mân newidiadau. Caiff y cofnodion eu llofnodi yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi - cyfarfod 6 Mehefin (BC 164-00)

3.1 **Paragraff 3.2**. Yr oedd pob plaid wedi cyflwyno’u safbwyntiau i Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau ynghylch y pwyllgorau rhanbarth. Camau: **Marie Knox i baratoi papur erbyn Pwyllgor Busnes yr wythnos nesaf**

3.2 **Paragraff 9.1** Yn dilyn BC159-00 ynghylch cynnig i newid Rheol Sefydlog 12.7 i ganiatáu trefniadau eilyddio ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio sydd wedi'u datgymhwyso, cadarnhawyd mai Alun Cairns, Peter Black ac Alison Halford fyddai'r Aelodau a fyddai'n cael eu datgymhwyso o'r Ymchwiliad i Forglawdd Bae Caerdydd.

## 4. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn

4.1 Dim

**5.  Cyngor i'r Cynulliad ynghylch gweithdrefnau**

5.1  Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC156-00 ynghylch symud cyfarfod llawn dydd Mercher i fore Iau.  Cadarnhaodd y Trefnydd fod ei aelodau yn rhanedig am y bwriad arfaethedig i symud cyfarfod llawn prynhawn Mercher i fore Iau, a bod aelodau'r Gogledd yn fwy tueddol o wrthwynebu.  Nid oedd awgrym pellach y Trefnydd, sef y dylai'r Pwyllgor Busnes symud i ddechrau busnes ar ddydd Mawrth, wrth fodd dau o'r pleidiau eraill.  Awgrymodd y Dirprwy Lywydd fod y pleidiau eraill wedi dod i gytundeb "mewn egwyddor" ac y dylai'r Pwyllgor aros am ganlyniad trafodaethau pellach y Grŵp Llafur.  **Gweithredu: y Trefnydd i adrodd yn ôl yng nghyfarfod yr wythnos nesaf**

5.2  Nododd y Pwyllgor bapur BC166-00 ynghylch Materion Darlledu ar gyfer Cyfarfodydd Llawn dydd Iau.  Cytunwyd bod angen rhoi mwy o ystyriaeth iddynt unwaith y byddai'r Trefnydd wedi adrodd yn ôl.

5.3  Yr oedd y Trefnwyr Busnes wedi trafod opsiynau a barn y Pwyllgor ynghylch papur BC157-00 ar Drefniadau Toriad y Nadolig o fewn eu grwpiau.  Yr oedd y Grŵp Llafur o blaid opsiwn 1 ar yr amod y cyfeirir at y toriad fel 'diwrnodau yn yr etholaethau'.  Yr oedd y Grŵp Ceidwadol o blaid Opsiwn 1, Grŵp Plaid Cymru o blaid Opsiwn 2, a Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol o blaid Opsiynau 2 neu 3.  Cadarnhaodd y Dirprwy Lywydd nad oedd y Llywydd o blaid Opsiynau 2 neu 3.  Mynegodd ei phryderon ynghylch y term 'toriad' ac awgrymwyd y dylid cyfeirio yn lle hynny at 'wythnosau cyfarfodydd llawn' ac 'wythnosau yn yr etholaethau'.  Cytunodd yr Aelodau y dylid dileu opsiwn 3 ac y dylid cynhyrchu papur pellach ynghylch materion staffio sy'n berthnasol i Opsiwn 2 erbyn y cyfarfod nesaf.  **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

5.4  Nododd y Pwyllgor gynnwys BC167-00 ar y Tudalennau Cyfarwyddyd ar y Fewnrwyd.  Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y wefan yn dda iawn a gofynnodd am bapur ynghylch unrhyw gyfarwyddyd sydd eto i'w clirio. Cadarnhaodd hefyd y byddai angen copi caled o'r holl gyfarwyddyd ar ffurf llawlyfr i bob Aelod erbyn tymor yr hydref.
**Camau: Cangen Gwasanaethau Canolog a Gwasanaethau i'r Aelodau i baratoi papur**

**6.  Pwyllgorau**

6.1  Dim

**7.  Busnes sydd ar y gweill**

7.1  Yr oedd y Pwyllgor wedi ystyried y datganiad busnes drafft (BC168-00).

**Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn 19 a 26 Mehefin a 3 Gorffennaf**

7.2  Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ynghylch ei ddatganiad arfaethedig ar drefniadaeth busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n cychwyn 19 a 26 Mehefin a 3 Gorffennaf, oedd y dylid bwrw ymlaen ag ef fel y’i amlinellwyd yn ei ddatganiad busnes drafft.

7.3  Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad ynghylch First Line yn ystod cyfarfod llawn dydd Mawrth, ac ar ei daith i Awstralia yng nghyfarfod dydd Mercher.

Cadarnhaodd hefyd y byddai'r amserlen 3 mis yn cael ei chyflwyno yn ddiweddarach yn y dydd, i'w thrafod yr wythnos nesaf.  Cytunodd y Pwyllgor â'r Trefnydd y dylai'r amserlen 3 mis gyfeirio at 'wythnosau yn yr etholaethau' yn hytrach nag wythnosau'r toriad.

7.4  Trafododd y Pwyllgor sut i ymdrin â’r Drafodaeth ar y Pwyllgorau Rhanbarth y bwriedir ei chynnal ar 28 Mehefin.  Cytunwyd y dylid sefydlu mecanwaith i fwydo gwybodaeth yn ôl o'r Pwyllgorau Rhanbarth i'r Cyfarfodydd Llawn a'r Pwyllgorau Pwnc.
**Gweithredu: Marie Knox i baratoi papur i'w ystyried yng nghyfarfod yr wythnos nesaf**

7.5  Trafododd y Pwyllgor sut i ymdrin â’r Drafodaeth ar Adeilad Newydd y Cynulliad y bwriedir ei chynnal ar 21 Mehefin.  Yr oedd yn fwriad gan y Trefnydd gyflwyno cynnig drafft i'w drafod ac i’w gytuno gyda'r Trefnwyr Busnes cyn ei gyflwyno.

7.6  Trafodwyd sut i ymdrin â'r Gorchmynion y bwriedir eu trafod ar 20 a 27 Mehefin.  Er mwyn sicrhau bod y cyfarfodydd llawn yn mynd rhagddynt yn hwylus, eglurodd Marion Stapleton y byddai taflen esboniadol ynghylch pob gorchymyn yn cael ei dosbarthu i’r Aelodau ymlaen llaw.  Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i bob Gorchymyn gael ei grwpio gyda'i gilydd ar y datganiad busnes drafft yn y dyfodol, a hynny ar sail y meysydd pwnc.

7.7  Cadarnhaodd y Dirprwy Lywydd mai hi fyddai'n llywyddu cyfarfod llawn 28 Mehefin.

7.8  Nododd y Trefnydd gais Ieuan Wyn Jones am ddadl ar yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

7.9  Gofynnodd William Graham a oedd yna unrhyw fwriad i newid dyddiad y Drafodaeth ar Adroddiad y Pwyllgor Cyn 16 oed.  Cadarnhaodd y Trefnydd nad oedd yn fwriad ganddo  newid y dyddiad ar hyn o bryd.

## <u>8.  Is-ddeddwriaeth</u>

8.1  Dim

## <u>9.  Diwygio'r Rheolau Sefydlog</u>

9.1  Dim

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

10.1 Dim

**11. Unrhyw fusnes arall**

11. Yr oedd y Dirprwy Lywydd yn awyddus i fwrw ymlaen i sefydlu cysylltiadau â San Steffan. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i sefydlu trefniadau ar gyfer sesiwn yr hydref.**

12. Dywedodd William Graham ei fod yn dal i gael trafferthion â'i gyfrifiadur personol gartref. Cadarnhaodd y Dirprwy Lywydd fod materion TG wedi cael cryn sylw ym Mhwyllgor y Tŷ, a'u bod yn edrych ar y posibilrwydd o gael Llinell Gymorth i Aelodau gyda'r nos a thros y penwythnosau.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**